# Y DINESYDD

RHIF 10 MAI 1974

# EISTEDDFOD GODRE'R GARTH

Fe glywes son am Steddfod Fawr Llangollen yn 1859 - doeddwn i ddim yna y tro hwnnw - a'i bod wedi troi allan yn steddfod hwyliog dros ben, ar waethaf y ffaith fod Ab Ithel wedi trefnu iddo fo ennill nifer o'r gwobrau llenyddol. Ond fe roeddwn i yn Steddfod Fawr Godre'r Garth yn Neuadd Efail Isaf ar nos Sadwrn, Ebrill 6ed. Dychmygwch y sitiweshion-sefyllfa. Neuadd yn orlawn erbyn y cic-off am hanner awr wedi chwech, ac roedd hi'n llawnach na hynny pan ganwyd yr anthem am chwarter wedi un y bore. Cystadlu campus, ysbryd iachus a llond bol o hwyl hefyd - a dweud y gwir roedd hi hanner ffordd rhwng steddfod seriws 'mi-cura'i-di-was' a noson lawen. Chafodd yr un gynulleidfa fwy o werth ei phres ers amser - saith awr am ugain ceiniog.

Y rhyfeddod ydi hyn - fod 'na wŷl fel hon, hollol Gymreig, wedi ei chynnal yn yr ardal yn 1974. Dyma hwb arall i'r adfywiad sy'n digwydd yng nghylch Ton Teg, Creigiau, a'r Efail - a hon yn siwr i chwi oedd y gyntaf o gyfres flynyddol. Beth am yr heileits? Dyma chi rai. Gareth Gregory o Bontypridd yn ennill ar ddweud stori, ac araith ar y pryd (sgubol). Brynmor Jones ar y prif adroddiad, y saith pedwarawd a'r pump wythawd, Côr Cymysg y Creigiau yn curo Corau Ton Teg. Aelwyd Pontypridd a Meibion Abercynon, Côr Cerdd Dant y Creigiau, tri pharti o Ddysgwyr yn canu Hen Feic ¼c fy Nhaid, a dau barti o Ddysgwyr yn cydadrodd rhan o Buchedd Garmon. Pinacl y noson oedd seremoni gadeirio nas gwelwyd ei thebyg erioed o'r blaen - a'r gadair yn cael ei hennill am awdl gan Delyth Beasley i 'Tua'r Dwyrain'. Enillwyd gwobrwyon llenyddol eraill gan Mrs. Ceri Williams, Mrs. Mairwen Gwynn Jones, Mr. Penri Jôs. A dyma'r englyn buddugol i Fynydd y Garth:

Chwi - ffug werin y ddinas - dowch o'ch plwy -
Dowch â'ch plant - cewch solas
A rhin bro ar fy mryn bras
A'r hedd sy'n gyffur addas.

Gwyndaf (San Ffagan) yn rhywle ar eich taith, gofynnwch iddo adrodd ei gampwaith ef i chi.

Wel - dyna hi - noson fawr ymhob ystyr. Mae'r hedyn wedi ei blannu ac wedi dwyn ffrwyth ar ei ganfed. A mae ne le i chwaneg o hau hadau hefyd. Ond fase hi'n braf gallu cael steddfod fawr daleithiol - Gwŷl Fawr Bro Morgannwg erbyn tua 1978?

## Buddugwyr

Unawd Margaret Davies, Rhondda.
Adroddiad i Ddysgwyr

Unawd - Margaret Davies, Rhondda.
Adroddiad i Ddysgwyr - Jane Lethbridge, Cilfynydd.
Deuawd - Wil Morris Jones a Dafydd Idris, Pontypridd.
Unawd offerynol - Anthony Slade, Tonteg.
Araith ar y Pryd - Gareth Gregory, Pontypridd.
Cân Werin Unigol - Dafydd Idris, Pontypridd.
Parti Cerdd Dant - Parti Creigiau.
Cyd-adrodd - Merched Tonteg (mae protest swyddogion wedi ei datgan ar ran parti cyd-adrodd y 'Bush' a adroddodd y Ci Coch. Teimlwyd fod y beirniad wedi cael ei lwgr-wobrwy gan na allai neb yn ei iawn synnwyr ddweud fod y merched yn well na'r hogia).
Adrodd Unigol - Bryn Jones, Creigiau Mair Jones, Tonteg.
Parti Canu i Ddysgwyr - Parti Tonteg.
Stori Ddigri - Gareth Gregory, Pontypridd.
Pedwarawd - Parti Creigiau.
Wythawd - Parti Tonteg.
Parti Cyd-Adrodd i Ddysgwyr - Aelwyd Caerdydd.
Grwp can ysgafn - Pontygwaith.
Côr - Creigiau.

1. CERDD Y GADAIR - Morlais - Delyth Beasley, Tonteg.
2. Englyn - 'Y Garth' - Gwynn Jones, Caerdydd.
3. Englyn Digri - 'Y Meddwyn' - Gwynn Jones, Caerdydd.
4. Englyn Coch - Archwyd inni beidio deud.
5. Chwech o Dribannau - Penri Jôs, Tonteg.
6. Ysgrif - Mairwen Gwynn Jones, Caerdydd.
7. Traethawd - Dim cystadleuaeth.
8. Dwy stori addas i Ysgolion Meithrin - cydradd gyntaf Loreen Williams, Efail Isaf Mairwen Gwynn Jones, Caerdydd.
9. Cynllun gwaith - sichrau i Ysgolion Meithrin. Cydradd gyntaf: Gwen Griffiths, Tonteg Loreen Williams, Efail Isaf.
10. Cyfres o sleidiau - dim cystadleuaeth.
11. Limeric - Peter McMullen, Caerdydd (Dysgwr).
12. Traethawd i ddysgwyr - Dafydd J. Thomas, Caerdydd.
13. Cerdd i ddisgwyr - Sam Adams, Risca.
14. Llythyr caru i ddysgwyr - Valerie Hookway, Caerffili.



*Dymuniadau gorau i Ethni Daniel a Michael Jones a briodwyd yn ddiweddar. (Mwy o fanylion ar dudalen 6) Yn y llun hefyd mae Mared (merch Lona a Huw gynt o Gaerdydd) a Gwen Aaron, y forwyn briodas; mae Gwen yn gadael Caerdydd cyn bo hir i fynd i ddysgu yn ysgol Penweddig, Aberystwyth. Pob hwyl iddi hi hefyd.*

## Prifathro

Merfyn Griffiths, uwch ddarlithydd mewn Mathemateg yng Ngholeg Addysg Dinas Caerdydd, wedi ei benodi yn brifathro Ysgol Gyfun Ddwyieithog newydd Llanharri. Mae'n frodor o Lanegryn, Sir Feirionnydd, ac yn briod a Nan, merch y prifardd o Batagonia R. Bryn Williams. Mae ganddynt dri o blant, a chartrefant yn y Creigiau.

# CYMRO DU-GYMRAEG

**Os nad ydych chi'n siarad Cymraeg nid Cymro ydych chi. Os ydych chi wedi'ch geni yng Nghymru, er nad ydych chi'n siarad yr iaith rydych chi'n Gymro, ac yn y blaen ac yn y blaen...Mae'r cyfuniad o'r dadleuon yn ddiddiwedd. Yn bersonol, rydw i'n digwydd credu mai Cymro ydi unrhyw un sy'n teimlo yn ei enaid mai Cymro ydi o.**

**A chyn i chi ddeud 'mod i'n siarad llai o synnwyr na Hiwbyrt, gadewch i mi fynd â chi yn ôl i'r flwyddyn 1965 a'r Discotec yn Canton, Caerdydd. Fe es i draw gyda ffrind i ddewis cynulleidfa ar gyfer "Disc a Dawn". Yr unig ffordd i mewn oedd heibio bachgen ifanc du bits a chrys gwyn amdano yn cyhoeddi i'r byd a Grangetown bod smocio yn ddrwg a chyffuriau yn waeth. Ar ol esbonio ein bod ni yno ar ran "Disc a Dawn" a BBC Cymru, fe safodd wysg ei ochr ac i mewn â ni. Chwarter awr yn ddiweddarach, a ninnau ar ein ffordd allan, fe gefais y sgwrs ganlynol:**

"Who did you say you worked for?"

"BBC Wales"

"What Programme?"

"Disc a Dawn"

"What's that?"

"A Pop programme in Welsh"

"That's funny" medda fo a'i grys gwyn yn llenwi fel 'roedd o'n sythu'i hun i'w lawn chwe troedfedd, "I'm Welsh, and I never heard of it!"

Os ydych chi'n credu eich bod chi - mi rydych chi..........


Hywel Gwynfryn

## SWYDD NEWYDD

**Penodwyd Geraint Stanley Jones - brodor o'r Efail Isaf yn wreiddiol - yn Ddirprwy Bennaeth Rhaglenni BBC Cymru, yn olynydd i Owen Edwards. Mae'n briod a Rhiannon sy'n hannu o Lanuwchllyn, ac mae ganddynt ddwy eneth yn ysgol Bryntaf.**

## BARR YN YSGOL BRYNTAF

**Mae Sarah Barr, Rhiwbeina - hyd yma yn athrawes yn ysgol Bryntaf.**




# O'R EISTEDD ~FOD

## CHWE TRIBAN

"Yn ffinia plwy'Llan Illtud
Bu llawer tro ar fywyd
Ar erwa'r fro ma' amal graith
A'r iaith sy'n diodda'n enbyd.

Yng ghlybia ifad Bedda'
Fe sgrechiant am "Delilah"
Cwmrag all neb ei whila co'
Na morio'r hen "Gwm Rhondda".

Fe gaews yr holl bylla
Menywod yn y gwithia
Y llancia'n llac, all neb i trin
Crotesin dîn a choesa".

Hen wr, paid ti gofidio
Mae'n cwmwd nawr yn deffro
Fel Ifor Bach, mae bois y Blaid
Yn haid yn mynnu mentro.

A chlywir yng Ngarth Olwg
Wenhwyseg bêr Morgannwg.
Mae'r dysgwyr brwd a'u hwyl yn gân
Rhyw dân sy'n fflamio'n amlwg.

Der lawr i'r Efail Isa
I'r iaith mae yma Noddfa;
Gwinllan firain cerdd a llên
Bydd llawer Eisteddfota.

## AIL FAB

**Ganwyd ail fab i Wil a Gwenda Rees gynt o Glas Coed y Brain Llandaf - yn awr o Blas Glansefin, Shir Gar. Mae Gwenda'n ymddangos ar raglen teledu Harlech 'Hamdden'.**

# YR YSTAFELL GYMRAEG

**"Yde chi'n siarad Cymraeg?" "No, I'm sorry," meddai Mr. Risoli. "Get lost," oedd yr ymateb cwta.**

**S. Risoli yw rheolwr yr "Ystafell Gymraeg", tŷ bwyta deufis oed ar Heol Eglwysnewydd (Whitchurch Road). Dyw enw'r perchennog - Signor Palladino - fawr mwy addawol cyn belled ag mae Siarad Cymraeg yn bod. Ond os yw hynny yn rhwystr i rai rhag cefnogi'r fenter mae eraill a fu yno am bryd yn fawr eu canmol o'r dewis o fwyd, y modd y cafodd ei goginio, yr awyrgylch a'r dewis o win i olchi i lawr y bwyd a'r awyrgylch.**

Y cwestiwn amlwg i'w ofyn i Palladino a Risoli yw pam yr oedd dau Eidalwr yn agor tŷ bwyta o'r enw "Ystafell Gymraeg". Fe gafwyd yr ateb, sydd yr un mor amlwg. "Roedd hi'n ein taro ni'n dau yn od fod ym mhrifddinas Cymru lefydd oedd yn darparu bwyd Eidalaidd, Indiaidd, Ffrengig, Tseineaidd ...ond dim unman yn darparu bwyd Cymreig." Sut fwyd yw hwnnw - bara lawr, bara ceirch... na; y bwriad yw paratoi bwydydd mae pobol eisiau eu gweld ar fwydlen. Yna coginio y bwyd mewn ffordd chydig yn wahanol.

Fum i ddim yn y gegin ond mae'r ddau bryd ges i yno wedi bod yn flasus. Cawl cartre; cocos Penclawdd; corgimychiaid Penfro.... ac fe ddyfeisiwyd enw i gyw iâr a'i alw'n Gyw Iâr Eryri. Dyw'r bwyd ddim yn arbennig o rad ond mae digon ohono. Llond powlan a llond plât. Ac mae hynny'n nodwedd Gymreig reit siwr i chi.

Dyw'r merched sy'n gweini ddim yn siarad Cymraeg chwaith. Tybed a fyddai hynny yn poeni gwr y "Get lost" o edrych ar harddwch Marisa ac Antonia - y naill o Sbaen a'r llall o Bortiwgal.

"Welais i ddim gair amdano chi yn y 'Good Food Guide' diweddara," meddwn i wrth Signor Risoli. Dyna pryd y daeth yr Eidalwr ynddo i'r wyneb. Fflamiodd, chwifiodd ei freichiau ac o'r siarad pymtheg-i'r-dwsin fe ddeallais nad oedd neb o'r 'Good Food Guide' wedi galw heibio ar waetha'r ffaith iddyn nhw honni yn y llyfr fod Caerdydd yn brin o goginio traddodiadol. Hwyrach y bydd mwy o awydd galw heibio arnoch chi. Y rhif ffôn yw Caerdydd 42317.

"Siarad Cymraeg?" Wel mae 'na Gymraes lan loyw, roces o Sir Benfro, yn gweithio yno rai nosweithiau. Ei henw? Myfanwy. Ie wir. Ond 'na fe, fydd y Gogs ddim yn deall y roces yn patro Cwmrag sbo.

Alun Evans

# MERCHED Y WAWR

## (Cangen Caerdydd)

Ar ol y noson uchelael honno o fynd i wrando opera, daeth rhaglen y tymor i ben noson olaf Ebrill gyda difyrrwch oedd dipyn yn nes at ein gwreiddiau. Buom yn gwylio Buddug Thomas, Llandaf yn tynnu cyflaith fel y byddai ei mam yn 'i wneud ers talwm - gweler y riset ar dudalen 76 'Amser Bwyd' Minwel Tibbott, a phryner y siwgwr llwyd / brown meddal sy yn siop David Morgan yn unig. Dyna'r un addas, mae'n debyg. Diddorol oedd clywed Buddug yn arfer y gair 'myndl' am y llwy bren i droi'r cyflaith - llygriad o 'manhandle', fe awgrymai, ac yn air yn nhafodiaeth Maldwyn. A difyr oedd dysgu bod 'na wahaniaeth rhwng cyflaith (a dynnir) a thaffi (a arllwysir i dun i galedu).

Tra rhedai ein Ffani Cradog am y noson i gegin y Ganolfan i ferwi ei thrwyth, fe'n swynwyd gan Margaret Tilsley, Rhiwbeina yn canu alawon gwerin yn ei dull dihafal. Braf oedd clywed eto yr alaw o Sir Fon am y wreigan honno oedd yn eiddigeddus o olch gwyn, claer ei merch-yng-nghyfraith dros yr afon, ac a ddrwg dybiai ei mab o roi gormod o sebon i'w wraig ifanc (peth prin a chostus yn y dyddiau di-bowdwr-beiolegol hynny).

A phawb yn cnoi cyflaith-darn i brofi - fel gyrr o wartheg aethpwyd ati i ethol swyddogion am y flwyddyn nesa'. (Fedrai neb wrthod job - ei cheg yn rhy llawn.)

Llywydd - Eleri Rogers, Culverhouse Cross.

Ysgrifenyddes Sirol - Mair Jones, Llandaf.

Ysgrifenyddes - Margaret Tilsley, Rhiwbeina.

Trysoryddes - Ann Rees, Llanrhymni.

Pwyllgor - Anita Butler, Rhiannon Evans (Cyncoed a Phenylan) Heulwen Thomas, Eleri Gwyndaf (Llandaf), Nia Vittle (Rhiwbeina), Olwen Mears (Y Waen), Dorothy Richards (Eglwysnewydd), Gwen Owen (Y Ffiniau).

Wedi iddi ymadael o'r gadair, diolchodd Myra Jenkins i Margaret Evans (Ysgrifenyddes) a Myfanwy Jenkins (Trysoryddes) am eu gwaith eleni - yn arbennig am eu clyfrwch yn adeiladu cyfalaf banc sylweddol, ac am y gefnogaeth frwd yn ystod y flwyddyn a gryfhaodd y gangen i fod yn un o dros gant o aelodau cyflawn (arwahan i nifer o hwyrddyfodiaid ar ddiwedd y tymor).

Edrychwn ymlaen yn awr at benllanw'r rhaglen oddi-cartre - sef y noson sirol yn y Bontfaen ar Fehefin 10fed pan ddaw'r llwythau o'r hen ddwyrain Morgannwg oll ynghyd yng ngwesty'r Arth.

Gofynnir i unrhyw un sydd ag awgrymiadau neu syniadau diddorol ar gyfer rhaglen y flwyddyn nesa' ddod i gysylltiad yn ddioed ag unrhyw un o'r swyddogion newydd.

Hefyd dyma'r adeg i drafod pa ddosbarthiadau nos trwy gyfrwng y Gymraeg a fyddai'n eich denu y gaea' nesa'. Pleser yn y cyfarfod ola' oedd gweld lluniau o beth o ffrwyth y dosbarth gwnio eleni (a gynhaliwyd yng Nglan-y-Nant dan ofal Ann Ladd) - tair gwisg morwyn briodas o waith Nansi Jeffreys. Felly hai ati, pawb i gynllunio difyrrwch nosweithiau'r hirlwm, er nad yw eto ond yn gychwyn haf. Nawr yw'r amser i hau hadau'n cynhaeaf.

Mairwen Gwyn Jones.

# NEWYDDION CWM RHYMNI

YMWELODD grwp o bobl ifainc o Aelwyd yr Urdd, Caerffili, a chapel Ebeneser, Heol Fawr, Nelson, yn ddiweddar i gynnal gwasanaeth ar ffurf rhaglen nodwedd. Fel canlyniad derbyniodd y grwp gyfanswm o dros £14 a fydd yn cael ei hanfon i helpu sefydlu Adran Sbinabifida yn Ysbyty Treforus.

* * *

AR ddiwedd y tymor rygbi, priodol oedd i blant Aelwyd Caerffili fwynhau ffilm ardderchog y B.B.C. o gem y Crysau Duon yn erbyn y Barbariaid. Tybed a welir eto gem o gystal safon o'i dechrau i'w diwedd?

* * *

MAE'N siwr i ddilynwyr y rhaglen boblogaidd 'University Challenge' sylwi yn arbennig ar gapten tim coleg Newnham, Caergrawnt sef Lynne Edwards, merch Mr a Mrs John Edwards Caerffili. Mae Lynne ar ei blwyddyn gyntaf yn y coleg ac yn darllen athroniaeth ar ol dilyn gyrfa ddisglair iawn yn yr ysgol.

* * *

RHAGHYSBYSIAD pwysigl Bydd Ryan Davies yn agor Ffair Haf Ysgol Gymraeg Senghennydd eleni ar Ddydd Sadwrn, Mai 18, ym mharc Abertridwr, Nodwch y dyddiad.

* * *

YMDDANGOSODD nifer o athrawon y cylch ar raglen deledu'r BBC 'Codi Pwnc' i drafod dulliau dysgu. Dan gadeiryddiaeth Hywel Teifi Edwards cafwyd drafodaeth frwd ar y dulliau modern sydd wedi gweddnewid yr ysgolion cynradd ac ar eu heffaith ar y safon gyffredinol o ddarllen, ysgrifennu a rhifo.

* * *

BU capeli ac eglwysi'r cwm yn brysur eithriadol dros y Pasg yn cynnal cyfarfodydd a gwasanaethau arbennig. Yn eu plith cafwyd dwy Gymanfa Ganu yn ardal Caerffili, y naill ym Methel, capel yr Annibynnwyr, a'r llall yn Nhonyfelin, capel y Bedyddwyr.

* * *

BELLACH aeth prysurdeb eisteddfota tymor y Gwanwyn heibio ac, erbyn hyn, mae'r enillwyr yn edrych ymlaen at gael ymweld a thref heulog y Rhyl gyda'r gobaith o gael llwyfan, o leiaf, o flaen y dorf ym mhafiliwn Eisteddfod yr Urdd. Cynhelir yr Eisteddfod eleni o Ddydd Mercher, Mai 29, i Ddydd Sadwrn, Mehefin 1.

* * *

## CROESO

Croeso i'r Parch Rhys Tudur i'n plith - yn weinidog i Fethlehem, Gwaelod y Garth a Severn Rd. Mae'n fab i'r Parchedig Doctor Tudor Jones, Bangor. Bydd yn ymgartrefu yn Y Mans, Gwaelod y Garth.

## DIRPRWY BRIF - ATHRAWES

Dymuniadau gorau i Mrs Heulwen Jones, a fu'n hir aelod o staff ysgol Bryntaf ar gychwyn ei gwaith fel Dirprwy Brifathrawes yn yr Eglwysnewydd.

## DYSGU DARLLEN

Elen Ogwen, Eglwysnewydd (a Choleg Addysg Cyncoed) wedi ei phenodi yn Gyfarwyddwr Cynllun gan y Cyngor Ysgolion i ddatblygu deunydd i gynorthwyo plant i ddysgu darllen yn Gymraeg. Cynllun dwy flynedd fydd hwn, a'i ganolfan fydd Coleg Addysg Dinas Caerdydd.

**Amgueddfa Werin Cymru**

SAIN FFAGAN

Dowch i weld : Y Castell a'i Erddi, Ysgubor y Strytlydan, Ffatri Wlan Esgair Moel, Capel Pen-rhiw, Ffermdai Abernodwydd, Cilewent, Kennixton, Hendre'r ywydd Uchaf Bwthyn Llainfadyn, Y Tanerdy, y Talwrn Ymladd Ceiliogod, y Tollborth a'r Efail, Dylech hefyd weld yr Oriel Ddiwylliant Materol lle dangosir agweddau ar fywyd a chymdeithas yng Nghymru.

Gwelwch hefyd y Crefftwyr wrth eu gwaith.

Os ydych yn cymryd diddordeb mewn traddodiadau llafar, canu gwerin neu dafodieithoedd Cymru, holwch am yr Adran Draddodiadau Llafar a Thafodieithoedd.

Gellwch cael cinio a the yn yr Ystafell Fwyta ond dylid gwneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer partion niferus. Eich **BWS** o **GAERDYDD** yw rhif 32 o'r **ORSAF FYSIAU GYFFREDINOL.**

MYNEDIAD: Pobl mewn oed 10c (20c Gorffennaf ac Awst)
Plant o dan 16 5c.
Pensiynwyr yn rhad.
Dosbarthiadau ysgol yn rhad pan drefnir ymlaen llaw.
Mynediad am ddim ar Ddydd Llun.
(ac eithrio gwyliau cyhoeddus).

| | | |
|---|---|---|
| MAES PARCIO: | Bysiau | 15c |
| | Ceir Preifat | 11c |
| | Beiciau Modur | 5c |

| | | |
|---|---|---|
| ORIAU AGOR: | Dyddiau'r Wythnos | Ebrill, Mai, Mehefin a Medi 10.00 a.m. – 6.00 p.m. |
| | | Gorffennaf ac Awst 10.00 a.m. – 7.00 p.m. |
| | | Hydref – Mawrth 10.00 a.m. – 5.00 p.m. |
| | Suliau | Ebrill – Medi 2.30 p.m. – 7.00 p.m. |
| | | Hydref – Mawrth 2.30 p.m. – 5.00 p.m. |





YCHWANEGWCH y gorau i'ch cartref......

Dewiswch o'r gwlau, goleuadau, a'r celfi gorau yng Nghymru.

Discownt sylweddol ar wlau a chelfi.

**Ni yw'r arbenigwyr**

**Sleep & Light Centre**

10/11 Mill Lane, Caerdydd. Tel. 23539

Ar agor 6 diwrnod yr wythnos
9 a.m. - 5 p.m.

NOSON HWYR - NOS IAU HYD
7.30 p.m.




*yn Awr yn y Siopau*
*ail lyfr ...*




HTV CYMRU WALES

AIL LYFR LLEWELYN - COFIWCH GAEL EICH COPI GAN LYFRWERTHWYR LED- LED CYMRU. RHAID CAEL LLYFR 2!

Yn awr ar werth. Cyhoeddwyd a chynlluniwyd gan Adran Rhaglenni Plan
HTV Cymru, Y Ganolfan Deledu, Caerdydd.




*Tri dyn o Ddwyrain Caerdydd oedd ennillwyr y gyfres Cwis gan HTV Cymru "Carreg Filldir" chwith ir Dde, Mr Huw Powell, o Eglwysnewydd, Mr Harold Evans, Llanishen, a Mr Keith Thomas, Rhiwbeina – Caerdydd ar i fyny!*

# O'R EISTEDDFOD

**Tua'r Dwyrain**

*Tua'r mwg am y tir mud - ei weunydd*
*A'i elltydd yn alltud,*
*Garw mai hon ydyw'n gweryd.*

*Tua'r mwg am y tir mud - ni cheir cân*
*Ni cheir cwys gan ehud*
*Gwaeledd lle gynt bu golud.*

*Tua'r mwg am y tir mud - oer y gwyll*
*Erwau gwag di-fywd.*
*Rusiwr oes, pwy roes yr hud?*

*Tua'r mwg am y tir mud - hen y gwaed*
*A'i gur adeg machlud*
*Esgyrn rhwth is gwern y rhyd.*

*Tua'r mwg am y tir mud - a 'nabod*
*Anobaith pob ynfyd*
*Och alar in' ddychwelyd.*

*Yno i fedi ffrwythau anfadwaith*
*Gweld yn unrhyw g'ledi hen anrhaith*
*Y wlad hoff hithau'n anial a diffaith*

*Derbyd wrth angen ei chrechwen a'i chraith*
*Rhyw Ganaan oer ei g gweniaith - cyrchu nod*
*Yno a gwybod golli pob gobaith.*

*Dyfal lafurio yn ceisio cwysi*
*I hau hen drysor wrth fôn y drysi*
*Yn ŷd a gawn cyn hir i'n digoni*
*Chwilio bro fwyn a chael briw o feini*
*Hwn yw'r pwn sy'n ein poeni - fe'n blinwyd*
*Ond cwyd ein breuddwyd dim ond bwrw iddi.*

*Trwy chwys wyneb y bydd trechu swynion*
*Ni ddaw heb waith i'n newydd obeithion*
*I roi ei hurddas yn ôl i'r werddon*
*Yno'i charu ac adfer ei choron*
*Heb edliw, yno'n wŷr bodlon - i'r bau*
*A ddyry'i golau i ddewr ei gelon.*

*Dychwel y gân i fyd uchel gwrunydd*
*A dychwel yr hyf i isel feysydd*
*Ar ei adain yn glau fe ddaw'r hedydd*
*Y dryw bach a sain eri uch y crychydd*
*Wedi'r ffoi adre ffydd - yr hurlan*
*Y gynnau'r tân ar lydan aelwydydd.*

**Delyth Beasley**

**ENGLYN DIGRI 'MEDDWYN'**

Hyblyg ar ôl cael bybli - yw William.
Mae oelio'n ei lonni;
Yn chwil, mae'n ail i Gigli,
Heria bawb r'ôl Cherry B. Worthington.

**Pedr McMullen**

**Limeric**

Pan ddaeth Saeson un dydd draw i'r Beddau
Gen adael Church Village o'u holau
Fe ddywedodd un wit
Di-lun a di-sut
Nhw'n swnio fel hogiau o Greigiau.

**Merched y Wawr**

**Cangen Caerdydd**

Gyda'r gwanwyn, cafwyd awel wanwynnol yng nghwmni Mrs. Nan Prydderch, o Gyncoed, yn trin blodau yn ddeheuig, - a hyd yn oed yn gosod plu lliwgar y peunod yn ddeheuig i addurno'r tŷ.

Dilynwyd hyn gan noson yng nghwmni Fo - sef Guto Roberts, Rhoslan, yn sgwrsio'n ddihafal ddifyr am ddiwylliant bro ei febyd yn Eifionnydd. Tebyg mai'r rhuddin hwnnw yng ngwraidd ei fagwrfa barodd iddo fynnu fod ei dâl am y noson yn mynd i goffrau 'Y Dinesydd'.

Penllanw'r tymor oedd ymweld â'r Theatr Newydd i wrando a gweld opera "Y Pysgotwyr Perlau". Fe gafodd rai o'r gwŷr mwya' mentrus groeso i ymuno a'r cwmni y noson honno, a mawr yr hwyl yn yr hwyrbryd ar ôl y canu yn y Glôb.

**TREFNYDD IAITH**

John Albert Evans - athro yn ysgol Bryntaf - wedi ei benodi yn drefnydd iaith Canolbarth Morgannwg.

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.

SIR FÔN - Y FENAI

Bwthyn yn y wlad i'w osod am fisoedd yr haf. Gwelyau i 5. Cyfleusterau modern, a theliffôn. Cysyllter â Dr. Alun Griffiths. Ffôn: Brynsiencyn 204.

# A'C A FI

Dr. H. Pritchard-Jones,
9 Heol Wingfield,
Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF4 1NJ.

4ydd Ebrill 1974

Annwyl Syr,

Archeb Y Dreth - 541338OE
Taliad Gyda Gorchymyn Banc

Gyda cyfeiriad at eich llythyr dyddedig 29ain Mawrth, 1974. Maen ddrwg gennyf eich hysbysu mae yn saesneg yn unig mae y ffurflen talu drwy'r banc.

Nid oes cais arall wedi bod am y ffurflen uchod yn Gymraeg, a'c fellu ni fyddai hyn yn ddarbodus i argraffu nifer fechan o'r ffurfleni.

Bydd archeb y dreth Gymraeg, am y flwyddyn 1974/5, yn cael eu hanfon i chwi cyn gynted a'c y byddent wedi cael eu paratoi.

Yn Gywir Iawn,

Trysorydd Cyngor Dinas Caerdydd. W.H. Carpenter,

# TREFNYDD RHAGLENNI PLANT

**Penodwyd Dyfed Glyn Jones (Penarth) fel olynydd i Evelyn Williams yn Drefnydd Rhaglenni Plant gyda BBC Cymru. Dymuniadau gorau i Miss Evelyn Williams wrth ymddeol a diolch iddi am ddydd o waith.**

### PROFEDIGAETH

**Shan Emlyn (Mrs Owen Edwards) ac Endaf Emlyn (Radyr) wedi colli eu tad yn ddisymwth.**

# Priodasau

### ETHNI'N PRIODI

Dydd Mawrth y Pasg, Ebrill 16eg oedd diwrnod priodas Ethni Daniel a Michael Jones. Yng Nghapel Heol y Crwys y cynhaliwyd y gwasanaeth a gweinyddwyd y briodas gan y Parchedigion Lodwig Jones ac Emlyn Jenkins; yr organydd oedd Mr Eirion Lewis. Yr oedd naws gwbl Gymreig i'r briodas - Ethni'n gwisgo gwlanen Cymreig mewn patrwm hynod, fel y gwelir yn y llun ar y dudalen flaen. Cyfansoddwyd emyn yn arbennig gogyfer a'r achlysur gan Annie Daniel (mam Ethni, Nia a Lona a gweddw Gwyn Daniel) a'i chanu ar dôn Blaenwern. Dyma'r ail bennill

Cariad mwy wyt na'r cyfanfyd
Rhyfedd yw dy gryfder di,
O cwyd ninnau fry i'th wynfyd
Gwynfyd aberth Calfari.
Paid a'm gadael nes ein llenwi
A'th rinweddau o bob rhyw,
Tyn ni atat nes ymgolli
Yn dy gariad tra bôm byw.

Mae'r ddau wedi cartrefu yn 118 Heol Dwyrain y Llyn, Parc y Rhâth.

### PRIODAS YN DURBAN

Ar Fehefin 14eg bydd Richard a Beti Wyn Jones, Menai, Llanishen, yn cychwyn am Dde Affrig i briodas eu mab hynaf, Stephen, yn Durban. Merch ifanc o'r Affrig a dreuliodd chwe mis fel 'Physiotherapist' yn Ysbyty'r Heath yw y briodferch. Yn syth ar ol priodi bydd y par ifanc yn cychwyn am Toronto, lle y bwriada Stephen arbenigo mewn Radioleg.


AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

## AMGUEDDFA WERIN CYMRU

Gofalwyr Amser-Llawn.

Gwahoddir ceisiadau am swyddi Gofalwyr yn yr Amgueddfa Werin Cymru. Cyflog £28.93 yn codi i £30. 14 yr wythnos ymhen dwy flynedd. Telir yn ychwanegol am waith gor-amser ar ddydd Sadwrn a phrynhawn Sul. Gwyliau blynyddol o 18 diwrnod a gwyliau swyddogol o 10 niwrnod. Cynllun persiwn, a darperir lifrai.

Manylion pellach a ffurflenni cais oddiwrth y:

Swyddog Gweinyddol,
Amgueddfa Werin Cymru,
Sain Ffagan,
Caerdydd. CF5 6XB.

# Y CYNGAN-EDDWRS

Mae tymor y dosbarth cynganeddu a gynhaliwyd dan nawdd Adran Efrydiau Allanol, Coleg y Brifysgol, Caerdydd, yn tynnu i'r terfyn. Rhyw un ar bymtheg fentrodd i'r maes - a rhyw ddwsin yno'n rheolaidd bob nos Fercher. Amhosibl medde rhai - dysgu'r holl gynganeddion, a'r pentwr rheolau - a disgwyl i bawb lunio pwt o gywydd ac englyn erbyn tua'r nawfed wythnos. Ond y ffaith ydy fod na un aelod sy'n englyna wrth y dwsin, a'r sgwrs wedi dirywio i ddim yn y cartref yn Heol Don. Miss Ann Rosser yn mentro darllen cywydd mewn cinio Gŵyl Ddewi, Moi Parry yn ennill cystadleuaeth yr englyn yn Y Cymro, Lynn Rees yn anfon englyn i'r Faner - a phawb arall yn taflu perlau wrth y dwsinau. Beth am hon?

A gweddw uwch arch yn gwarchod
A Duw yn rhy hir yn dod.

Sgubol. Hywel ap Robert yn creu campwaith un noson.

Y gamp oedd gorffen y llinell 'Y Coleg..... A'i ateb oedd 'Y coleg bloneg a blawd'. Cynghanedd sain fendigedig. Ond fe setlon'n ni y noson honno ein bod wedi cael enw newydd i Goleg Gwyddor Tŷ, Llandâf - enw a blas y werin yn drwm arno ac o hyn ymlaen, i aelodau'r dosbarth, "Coleg Bloneg a Blawd" fydd yradeilad yn Heol Llantrisant. Dyma chi Arfon yn mentro yn arw mewn anglyn.

Yr eira ddaeth ger Erwd - i'n lluddias,
Llwyddwyd cael gwâl amrwd;
Ynghlwm mewn tawel gwmwd,
Hithau a minnau'n y mŵd.

A dyma chi gwpled hyfryd:

Yn ara deg, y llegach
Gymer bwyll a'i gamre bach.

Pan oedd y petro wedi codi i hanner can ceiniog, dyma Lyn Rees yn mentro arni

'Ma wlad! R'ym mewn stad wyst ti - ein traffyrdd
Heb un traffic. Nefi!
Hewl dawel a hi'n Ŵyl Dewi!
A wfftia pawb. Fifty p? '

Mynd ati wedyn i wneud cywydd-ar-y-cyd yn y dosbarth i'r dosbarth. A dyma'r campwaith.

Dyma griw diffliw difflach
Yn saethu llwyth o sothach,
Lyn Rees, ei englyn a rydd,
A chywain wnaeth chwe chywydd,
Ein Hywel yn ddel a ddaw
A'i berl yn waith ei burlaw,
Dyna Mallt, a'i gwallt, a'i gwên
Yn siriol fel y seren,
Arfon a wnaiff gadeirfardd
Ei gŵyn fel eos mewn gardd
Ann Rosser yn pêr asio
Llusg a Sain yn gain o go',
A'r hen gog, Alun Ogwen,
O'r Wyrdro yn llunio llên.

Talcen slip - ffwrdd a hi. Ie falle - ond fe gafwyd hwyl yn yr ymdrech, a mwynhad wrth fynd i afael ag un o nodweddion arbennig byd barddoniaeth Y Cymro. A dyma comyrsial rwan - fe fydd 'na ddosbarth i ddechreuwyr eto y gaeaf nesaf, gyda thipyn o lwc.

T. Gwyn Jones.

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

# COLOFN SBECTOL SIAN




**BYWYD I'R IAITH !**

## Bwyd i'r Iaith !

Ar ôl gweld y llu o westai Sineaidd, Eidalaidd, Ffrangeg ag ati yn sboncio'i fyny fel madarch o gwmpas ein prifddinas croesawn - "Yr Ystafell Gymraeg".

Yn y gwesty hwn fe gewch fwyta'ch dewis o fwydydd arbennig o Gymreig yn cynnwys cocos Penclawdd, corgimwch Sir Benfro, bara lawr ag ati, mewn awyrgylch hamddenol braf. Mae'r fwydlen ddwyieithog (y Gymraeg yn gyntaf) yn werth i'w gweld. Galwch yno i brofi'r danteithion. Llongyfarchiadau i'r Eidalwr a welodd yn dda i agor peth mor chwyldroadol a gwes ty Cymreig yn ein prifddinas.

## Chwyldroadol

Gwelais gopi o lyfr Emyr Llywelyn "Y Chwyldro â'r Gymru Newydd" yr wythnos ddiwethaf. "Beth am hynny?", medde chi. Wyddoch chi ymhle y gwelais i o? - yn Llyfrgell y Ddinas ar silff llyfrau Cymraeg i blant!

Yn ôl cylchlythyr i hysbysebu cyfarfod Cangen Canol Caerdydd o Blaid Cymru yn ddiweddar ar yr agenda 'roedd "Gwiethediadu Dyfodul" - Gwd lyc!

Wrth sôn am gamsillafu gwelais gar yng nghyntedd capel Y Tabernacl (lle da i barcio am ddim) gyda'r llythrennau DYW arno.

Ydych chi'n gwybod am engreifftiau cyffelyb? Gyrrwch nhw i mewn neu crewch rai eich hunain.

Mae'n anodd ceisio anghofio am "Yr Ystafell Gymraeg" - dal i arogli'r cawl cartref mae'n debyg! Felly gorffennaf mewn gwesty arall - gwesty'r 'Centre'. Wyddoch chi fod yna ystafell arbennig yno i drigolion Caernarfon pan yn ymweld â'n prifddinas? O dan y geiriau "Coffee ship" gwelir y geiriau anhygoel "Tafarn Gofi!" O ce co 'na fo.

# MAES Y PLANT

## PIAU'R BEDDAU?

Dyma ichi ddau lun diddorol - lluniau beddau o fathau gwahanol, ac fe fedrech chi ymweld â'r ddau'n hawdd heb deithio'n bell o Gaerdydd. Tinkinswood yw un. Os ydych chi'n fychan â'ch gwallt yn ddu, mae'n ddigon posibl eich bod yn disgyn o'r bobl a luniodd y claddfeydd hyn - yr Iberiaid. Mae rhai pobol yn credu mai o gyffiniau'r Môr Canoldir y daethon nhw'n wreiddiol. Roedden nhw'n claddu'u meirw mewn cromlechi, ond, yn yr adeg honno, go brin y gwelwch chi'r cerrig mawr sy yn y darlun. Fe fydden nhw wedi cael eu gorchuddio â thomen anferth o bridd.

Mae'r ail lun dipyn yn ddiweddarach, ac fe fedrwch ddarllen yn hawdd llun bedd pwy yw e. Roedd Guto Nyth Brân yn rhedwr da iawn yn ei ddydd. Gan fod tymor y rhedeg ar fin dod, falle y gellwch chi arbrofi i weld a ych chi gystal ag e. Yn ôl y garreg fedd, fe redodd ddeuddeg milltir saith munud o dan yr awr.....398 llathen bob munud! Tipyn o gamp, a dweud y lleiaf.

## FEDRWCH CHI SILLAFU?

*Sgrifennwch bob un o'r geiriau yma sy wedi'u siffafu'n anghywir ar ddarn o bapur ac yna chwiliwch yn y geiriadur i weld a oeddech chi'n iawn.*

*MENYG, YFORI, PENNILLION, ENGRAIFFT, EISIOES, PENDERFYNNU, ANWYL, TWNEL, LORRI, ANIBYNNOL.*

*(Nawr, trowch i dudalen 9 i weld oeddech chi'n iawn.)*



## DEWIN SYMIAU!

Dywedwch wrth eich ffrind y gellwch chi roi ateb i sym iddo fe yn union ar ôl iddo fe sgrifennu'r rhes gyntaf o ffigurau! Cyn iddo fe farw o sioc, profwch eich bod yn iawn. Gofynnwch iddo fe sgrifennu rhes o ffigurau ar bapur, o un i naw. Er enghraifft,

3 2 5 5 6

Yn union wedi iddo fe wneud hynny, gadewch bedair llinell i bedair colofn o ffigurau, a sgrifennwch 2 5 4 7 7 6. Hynny yw, sgrifennwch y "6" olaf sydd ganddo ef, ond adiwch ddau at bob ffigwr arall, gan ddechrau ar y dde. Felly, 5 + 2 = 7; 5 + 2= 7; 2 + 2= 4; 3 + 2= 5. Ar ôl gwneud hyn, sgrifennwch y ffigwr "2" ar ochr chwith eich rhestr = 254776. Nawr, gofynnwch iddo fe sgrifennu'r rhes nesaf o bum ffigwr, eto o un i naw. Dywedwch ei fod yn sgrifennu 3 4 5 6 3. Ar ôl iddo wneud hyn, sgrifennwch chi res, sef 7 6 5 4 7. Hynny yw, tynnu pob ffigwr a sgrifennodd e o ddeg a nodi'r ateb. Nawr, gofynnwch iddo sgrifennu rhes arall, a gwnewch chwithau fel o'r blaen. Tynnu'r ffigurau a sgrifennodd e o ddeg a sgrifennu'r ateb i lawr. Fe welwch chi y bydd eich ateb yn gywir! Bob tro! Dyma enghraifft!

32556
57432
53678
29872
81238
______
254776

## A WYDDECH CHI?

*I gath yn Nyfnaint fyw nes ei bod yn 36 oed? Fe fu farw yn 1939.*

*Fod 580 o wahanol fathau o gorynnod yn byw ym Mhrydain? A bod tua 200,000, 000,000,000 ohonyn nhw?*

*Fod coeden dalaf Prydain yn tyfu ar lawnt Castell Powys, Powys? Roedd hi'n 181 troedfedd ym 1961.*


*Fod coeden hena'r byd dros 4900 blwydd oed?*

*Fod y môr, yn ei fan dyfnaf, ymron yn saith milltir o ddyfnder?*

### Chwiliwch am yr enwau pobl sy'n cuddio yn y brawddegau yma

*'Gwelaf fy nghartre fan draw,' meddai'r ferch.*
*Gwelais mewn potel enw cyfaill.*
*Roedd wedi bachu wyth o bysgod mewn awr.*
*Chwiliwch am air sy'n golygu "cas".*
*Rhaid wrth ddiwrnod teg i drin gwair.*
*Aeth gyda'r trên i Dregaron.*
*Ceir hanes tai yn Sain Ffagan.*
*Aeth â'r botel o'r gegin i'r bwrdd.*
*Cyffur a leddfa boenau cas.*

*(Trowch i dudalen 9 i gael yr atebion)*



TINKINSWOOD

## PEN BLWYDD HAPUS!

Mae Ebrill yn fis pwysig i'r Dinesydd achos mae'n cael pen ei flwydd yn ystod y mis. Neu, o'i roi mewn ffordd arall, mae'r Dinesydd yn flwydd oed y mis hwn. Pe bai ganddo deisen, fe allai roi un gannwyll arni ac yna'i diffodd. Ond wn i ddim, chwaith, pa mor hapus fydd ei ben blwydd i'r papur. Mae'n amhosibl cael plant Caerdydd i sgrifennu iddo fe. Erbyn hyn, roeddwn i'n meddwl y byddai gen i lond y lle o bosau a straeon a hanesion difyr - ond does gen i ddim. Beth am i chi anfon rhywbeth i'r golygydd. Y munud yma. Chwiliwch am ddarn o bapur a phin sgrifennu, a sgrifennwch rywbeth - unrhyw beth a fynnoch chi. Gofynnwch i mam nau dad am stamp a phostiwch e i fi, 46 Crystalwood Road, CAERDYDD. Wedi'r cyfan, fe fyddech chi'n cadw sŵn mawr pe na baech chi'n cael cerdyn pen blwydd!

## LLUN MIS MAWRTH

**Tybed faint ohonoch chi lwyddodd i adnabod y llun olaf a dynnodd Huw Jenkins i geisio'ch dal chi? Fe gefais i ddau ateb, a'r ddau'n gywir - un oddi wrth Huw Iddles a'r llall oddi wrth Alys Owen. Dyma a ddywedodd un ohonyn nhw yn ei ateb, 'Angel yn dal cleddyf ar ben y golofn yng nghanol y Cofadail i'r rhai fu farw yn y rhyfel byd cyntaf.' Ac fe ddylai pawb ohonoch chi wybod ble mae'r cofadail yma. Mae e'n un hardd.**

**Does gen i ddim rhagor o luniau. Rwy'n dal i obeithio y bydd un ohonoch chi yn anfon llun i mi - llun o rywle yn y ddinas, i geisio dal eich ffrindiau.**

## Y GWCW

Os ych chi'n clywed y gog yn canu yng Nghaerdydd, rych chi'n fwy lwcus na fi. Mae gyda ni dylluan yn cwyno'r tu allan i'r tŷ'n amal, ac mae gyda ni biod a mwyeilch yn yr ardd gefn, ond dwy i ddim hyd yn hyn wedi clywed y gog yn canu ar Y Waun. Pam, tybed? Fe fyddwn i'n falch ei gweld hi, achos roeddwn i'n gwrando amdani bob amser pan oeddwn i'n arfer byw yn y wlad. Ac fe'i clywais hi eleni, hefyd, ar y pymthegfed o Ebrill, a minnau ar adael y wlad i ddychwelyd i Gaerdydd. A'r peth cynta wnes i oedd edrych a oedd gen i bres yn fy mhoced! Achos, yn ôl y stori, os clywch chi'r gog am y tro cyntaf yn y gwanwyn heb arian yn ych poced, fe fyddwch yn dlawd drwy'r flwyddyn.

Fe fyddai'n anghywir dweud, 'Mae'r gog yn dodwy wye yn nythod adar eraill, 'a'i gadael ar hynny - achos, mae cogau mewn rhai rhannau o'r byd yn adeiladu nythod, fel unrhyw aderyn arall. Fe fyddai'n anghywir dweud, hefyd, 'Fe ganodd y gog, "gwcw" a mynd yn syth i ddodwy wy mewn nyth' - achos dyw'r gog fenyw, yr un sy'n dodwy'r wyau, ddim yn medru canu "gwcw" fel y gwryw. Sŵn digon aflafar sy ganddi hi. Pan fydd rhywun yn hapus yng Ngheredigion, roedd pobol yn arfer dweud ei fod e 'mor hapus â'r coge' - ond does dim un rheswm dros gredu fod cog yn hapusach ei fyd na'r un aderyn arall.

Ond er fod y gog yn anifail mor od, mae pawb ohonom yn falch pan ddaw'n ôl i Gymru. Ond fe fyddwn i'n falchach byth pe deuai i Gaerdydd - pan fydd arian yn fy mhoced.

Ych chi'n cofio beth ddwedodd Ceiriog am Y Gog?

'A gwcw gynta'r tymor a ganai yn y coed,
Run fath â'r gwcw gyntaf a ganodd gynta rioed'.

*Fedrwch chi sillafu?*

*Mae'r geiriau i gyd wedi'u sillafu'n anghywir!*

*Efa, Elen, Huw, Mair, Tegid, Enid, Nesta, Telor, Aled.*


* Os yw Cymru'n genedl, mae arni angen ei sefydliadau cenedlaethol.
* Mae gan athrawon Cymru eu Hundeb cenedlaethol eu hunain.
* Os ydych chi'n athro neu athrawes sy'n cyfri eich hun yn Gymro da, neu Gymraes dda, a heb fod yn perthyn i undeb eich gwlad eich hun, gwahoddir chi i gysoni'ch syniadaeth trwy ymuno ag:

UCAC

* Cewch berthyn iddo gan wybod nad ydych yn cynorthwyo i gynnal sefydliadau Llundeinig mewn moethusrwydd tra tanseilir rhwydwaith frau eich cenedl chi eich hun gan yr union sefydliadau hynny.

| | |
|---|---|
| Tal Aelodaeth Llawn | £7.00 |
| Athrawon a adawodd y coleg yn ystod Haf 1973 | £3.50 |

Telerau arbennig i Athrawon Rhan-amser ac Athrawon Dros Dro.

Aelodaeth arbennig ar gyfer darpar-athrawon.

UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU
11 Heol Gordon, Caerdydd. CF2 3AJ. Tel: 24692.






Côr Plant Llanishen

## £ SUT MAE YMESTYN Y BUNT

Cawsoch olwg ar lawer o bethau yr ydym yn eu gwerthu yma yn siop Dan Evans. Peth gwerthfawr i wybod yw mai yn Dan Evans y cewch y cyfleusterau talu gorau hefyd. e.e. Cyfrif misol.
neu Hur bwrcas (llog is na'r rhelyw)
neu gynlluniau talu arbennig i siwtio'r unigolyn.
gwnewch ymholiadau.

Peth defnyddiol arall i wybod ydyw fod DAN EVANS yn fodlon amcangyfrif eich gofynnion ym myd llenni a charpedi yn rhad ac am ddim unrhywle yn Ne Cymru.

DAN EVANS

Y SIOP I BOB AELOD O'R TEULU.

Galwch i weld

**Dan Evans**

*Y BARRI 4242*

## FFRWYTH LLAFUR

Yn eu Cyngerdd blynyddol 'Sain Cerdd a Chân' ar y 9ed Chwefror, llwyddodd Côr Plant Llanishen i wneud elw o £109 tuag at A.W.C.H. (Cymdeithas er lles plant mewn Ysbytai).

Dwy flynedd s

Dwy flynedd sydd er pan ffurfiwyd y Gymdeithas hon yng Nghaerdydd, ac mae wedi profi ei hun yn Gymdeithas fywiog a gweithgar dros ben. Trwy gynnal nosweithiau coffi, ffeiriau sborion ac yn y blaen, maent wedi casglu cryn dipyn o arian erbyn hyn. Dosberthir yr arian trwy'r Gweithwyr Cymdeithasol yn yr ysbytau i'w ddefnyddio fel bo'r angen i brynu offer fel pensiliau, paent, tegannau a phethau tebyg i'r plant; aiff peth ohono i helpu rhieni i dalu costau teithio i ymweld a'u plant pan fônt yn gorfod aros i mewn yn hir, neu mewn ysbytai ymhell oddicartre. Un plentyn yn y sefyllfa yma yw Elisabeth sydd mewn ysbyty yn Berkshire yn dioddef o 'Arthritis'. Deg oed ydyw Elisabeth ac mae'n debygol y bydd ei harosiad yn yr ysbyty yma yn un hir iawn. Ers rhai misoedd bellach mae'r Gymdeithas wedi talu costau teithio y teulu i ymweld a'u plentyn bob yn ail wythnos gan fod yr awdurdodau yn pwsleisio pwysigrwydd hyn i blentyn fel Elisabeth.

Diolch calon felly i bawb a gefnogodd y Côr bach eleni eto, ac os oes rhywun a hoffai roi hel mwy ymarferol i'r A.W.C.H., fel ymweld a phlentyn unig, neu gludo plant o'u cartrefi i'r ysbytai, dyma y person i gysylltu:

Mrs. Frances Lowe,
8 Heol-y-Felin,
Rhiwbina.

**CEFNOGWCH**

**Y DINESYDD**

# BUONA SERA BELLA GABALFA

gan

O. JOHN TOMOS

Yn araf ond yn bendant, tynnais y Geiriadur Mawr o boced stwmps fy wasgod. Mae dyn sydd ar drothwy cweryla â'i wraig angen pob mymryn o gefnogaeth i'w ddadleuon. Fwy nag unwaith mae'r llyfryn hwylus hwn gan H. Meurig Evans, M.A., Yr Ysgol Ramadeg, Rhydaman a W.O. Thomas, B.A., Crai (Gynt o Ysgol Syr William Collins, Llundain) wedi bod o ddefnydd mawr i mi. Yn enwedig gan mai DYSGWR yw'r musus.

"Cymraeg" meddwn, gan ddyfynnu'n ddigywilydd o dudalen 143, "a. Yn yr iaith Gymraeg". I danlinellu'r ddadl ychwanegais "Welsh (in language)." Ar y llaw arall, wyth lle i lawr wele'r gair Cymreig, "a. Yn perthyn i Gymru. Welsh, concerned with Wales and the Welsh." À dyna fi wedi ennill y ddadl. "Pa ddadl?" holai hithau, "A da thi, glanha'r dandryff 'na oddi ar dy ysgwyddau cyn mynd i mewn, efallai y cwrddwn ni â rhywun rydan ni'n nabod." A dyna fi wedi colli'r ddadl cyn ei hennill. Waeth i mi heb na dod yn ol efo ateb chwim fel:-

"Fuo na neb erioed farw o dandryff" Roedd hi wedi ennill. Ond fi oedd yn iawn. Yn y bwyty newydd 'ma ar Ffordd yr Eglwys Newydd, lai na mil o filltiroedd o Eglwys Heol Crwys, Notre Dame Cymru, roedd yr enw yn fawr ac yn ddeniadol. Ond yn anghywir. Yr Ystafell Gymraeg mae'n ei galw ei hun - fy nadl, i a'r cyfeillion anweledig H. Meurig Williams, M.A., a W.O. Thomas, N.A. yw mai'r Ystafell Gymreig ddylai hi fod.

Gan wasgaru'r dandryff i'r pedwar gwynt, i mewn a mi, a darganfod yn fuan fod y tri ohonom ni wedi methu. Cymraeg, do fe gawsom lond bol - Dafydd Iwan dros y Muzak yn rhoi blas i'r cawl trwy foli'r CROESO 69, a difetha'r stecan trwy ganu "Gee Ceffyl Bach", - y fwydlen a'r trimins yn ddwy-ieithog, a hen iaith y Menyg Gwyniom yn cael ei dyledus le. Ond . Cymreig? Dim ffiars o beryg. Eidalwr ac Eidalesau oedd yn rhedeg y lle! Un ohonnyn nhw, chwarae teg iddi, yn ddigon tebyg o ran pryd a gwedd ac ati i Gina Lollo-Pritchard!

"Dyna beth od" meddwn i,(gan eistedd ar y Geiriadur Mawr er mwyn cyrraedd y bwrdd), "ym Mhrifddinas Cymru (dyna'r si, beth bynnag, am Gaerdydd), - bwyty Cymreig yn cael ei redeg gan Eidalwyr!"

"Mae'r dandryff yn syrthio i dy gawl di" ebe'r musus.

"Parmesan" atebais innau, heb fawr o galon i ddadlau mwyach.

"Os ydyn nhw'n dechrau yn y fan yma, p'le y gorffenan nhw?" - cwestiwn rhethregol (gweler ein hen ffrind, tud. 237), ond cefais ateb parod:

"Maen nhw wedi cymryd yr Urdd drosodd eisioes. Rydw i wedi amau ers misoedd, ond 'rol gweld "The Godfather" rydw i'n bendant. Mae'r Urdd yn eu dwylo nhw".

Chwerthin wnes i, chwerthin yn iach, a dal i chwerthin nes cyrhaeddodd y bil. Rhoddodd hynny ben ar y rhialtwch! Y mafia y cosa nostra yn treiddio trwy'r henwlad? Amhosib!

Yn fuan wedyn, fis Awst i fod yn fanwl gywir, daeth yn Ddydd Iau yr Eisteddfod Genedlaethol. Fe ddylwn fod wedi amau pan welais y testun - "Awdl Foliant i'r Spaghetti". Ond, wedyn, mae'r beirdd, meddan nhw, yn canu i'r concrit (gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau). Ond pan draddododd y Prifardd I. Grist (Gogledd Caerdydd) ei feirniadaeth, gan ddyfynnu'n helaeth o awdl fuddugol 'ap Mussolini'; -

"A glywsoch chi son am rhen Beti
Eisteddodd ddwy awr ar y peti?
'Rwy'n beio y Whigs
A'r Syrup of Figs
Ond mwy na dim byd - y spaghetti."

Ar hyn fedrwn innau ddim dal mwyach.

"Nid figs, fix!" gwaeddais o'r seti rhataf. "Yn enw beirdd yr oesau o Guto Lawgoch i Harri Webb ac yn ol, nid awdl ydi honna! 0 Limrig, - Limerico Bolognese!" Ar hyn daeth dau wr ifanc cyhyrog efo bathodynau trionglog coch, gwyrdd a gwyn - lliwiau'r Eidal. A'm tywys tua'r cefn. "Mae gynnon ni ffyrdd i wneud i ti ganu 'bing-bong-be" meddai'r cyntaf.

"Mae nhw wedi hen arfer a sgrechian yn Heol Conwy, yn enwedig ar noson Wlpan"; meddai'r llall..........

# FRIENDSHIP UNLIMITED

**Go brin fod na run o ddarllenwyr 'Y Dinesydd' yn debyg o fod angen Clwb sydd yn cario'r enw uchod. Serch hynny mae'na o ddeuty 30 o leiaf o bobol sydd yn falch o gael mynychu y Clwb hwn ar Nos Iau neu Nos Sul. Mewn dinas fawr fel hon mae'n naturiol for y broblem o unigrwydd yn codi ei phen hyll ymysg yr ifainc yn ogystal a'r hen. Mi ydan ni'r Cymry - neu y rhan fwyaf ohonom - bethbynnag-yn ffodus ein bod wedi ein codi i edrych tuag at yr eglwys neu'r capel fel man cyfarfod, ac i rai ohonom mae digon o wahanol leoedd eraill y gallwn fod yn siwr o gwmni am awr neu ddwy - fel Cylch Cinio, Merched y Wawr, Cymrodorion, Cymdeithasau Llenyddol, Yr Aelwyd, dramau, cyngherddau, dosbarthiadau nos - a dydd erbyn hyn. Ond ymysg trigolion Caerdydd mae na filoedd o bobol heb ddigon o arian i ymuno a'r un Gymdeithas na'r gallu i ddod i gyffyrddiad a phethau diwylledig o'r fath. Dyma'r bobol sydd yn falch o dreulio tair awr am ddim mewn dwy ystafell gynnes a chlud, a lle y cant brynu disgled o de neu goffi am bris rhestmol yn ogystal a chael gem o gardiau neu darts, a chael cymysgu ac eraill gyda'r un broblem o unigrwydd.**

Cyn gleifion yw rhai. Tipyn o beth wyddoch yw ceisio ail gydio mewn bywyd yn y byd mawr y tu allan i furiau yr ysbyty, ac weithiau mae cael cwrdd a rhai eraill yn yr un sefyllfa yn help. Efallai mai gwraig weddw neu un wedi cael ysgariad fydd un arall, a'r llall wedi dod o grafangau y ddiod ac yn troi i mewn am ddisgled o de neu goffi, yn hytrach na throi i mewn i dafarn a all fod yn achos iddo fynd yn sal drachefn. Un o'r bobl ffodus hyn sydd wedi gorchfygu, yw John. Mae yn ŵr ifanc hynod o hoffus, ac sydd yn awr yn rhoi ambell i sgwrs am ei adferiad i rai llai ffodus nag ef ei hun. Mae ei hanesion amdano'i hun ym mynd trwy'r 'glyn' fel petai, mewn mwy nag un o ysbytai Caerdydd, a'i ddiolch diffuant i'r staff a'r meddygon, yn agoriad llygaid i rai ohonom sydd wedi byw am flynyddoedd yn ein cylchoedd bychain ein hunain, ac yn gwneud i ni sylweddoli cymaint o le i ddiolch sydd gan lawer ohonom. Mae John yn dal swydd gyda'r Cyngor ers dwy flynedd bellach, ond mae rhai sy'n dod i'r Clwb yn methu a chymeryd swydd gan eu bod yn dal i fynychu Clinic o un fath neu'r llall.

O Ble y daw'r arian i dalu rhent, golau a gwres medda rhywun - wel caiff y lle ei gynnal gan Gymdeithas Iechyd Meddwl Caerdydd, ond daw'r arian i redeg y lle hwn yn uniongyrchol o'r elw a wneir yn y 'Nearly New Shop' yn Heol Siarl, Caerdydd o ddaw o dan nawdd yr uchod. Nid oes neb yn awr yn cael tâl am fynd i'r Clwb ar Nos Iau a Nos Sul, ac mae'n dibynnu yn hollol ar weithwyr gwirfoddol. Felly hefyd y mae y siop yn cael ei rhedeg, ac mae amryw o ddarllenwyr y Dinesydd yn rhoi eu hamser i helpu yn ystod yr wythnos.

Am 10 o'r gloch ar Fore Mawrth, agorir y siop, ac felly bob dydd tan 4.0 yn cynnwys Dydd Gwener, i werthu dillad ail law. Ar ddydd Mercher o 10 hyd 3.30 mae grwp o ferched yn dewis a phrisio dillad ar gyfer y siop, ac ar ddydd Iau am 10 hyd 3.30 bydd y Trysorydd ac un neu ddwy arall, yn talu allan i'r rhai a fydd wedi gwerthu eu dillad drwy'r siop. Fe geidw y Gymdeithas un rhan o dair o'r pris y gwerthir dilledyn amdano, ac fe aiff y gweddill i'r gwerthwr.

Os oes rhywun â dillad 'Bron yn newydd' eisiau eu gwerthu dewch i'n gweld ar ddydd Mercher, neu os mai amser sydd gennych i'w sbario, beth am gael gair a rhywun yn y siop cewch fanylion am y clwb a'r siob ganddynt.

**Beti Wyn Jones.**



*Tynton, Llangeinor, Morgannwg, man geni Richard Price (gweler Rhifyn Mawrth).*

Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd.

Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd. Ffôn : 0222 - 396262.

# CLWB CYMRIC I GEFNOGI CEFN GWLAD

**Yng nghyfarfod blynyddol y clwb nos Lun 8fed Ebrill penderfynwyd yn unfrydol i fuddsoddi hanner cyfalaf clwb Cymric ym mudiad Adfer. Sicrheir hyn fod y clwb hwn o leiaf yn fodlon, ac yn barod i ymuno yn y frwydr dros gadwriaeth ein tir yng nghefn gwlad.**

**Cafwyd adroddiadau cynhwysfawr gan y swyddogion yn cyfeirio at binaclau'r clwb yn ystod y tymor e.e. ennill yn erbyn St. Josephs a Choleg Rhymni (dau o'r timau cryfaf yn yr adran). Ar y llaw arall canolbwyntiwyd ar wendidau'r clwb hefyd, a cheiswyd datrys y problemau hyn erbyn y tymor nesaf.**

Un neges amlwg oedd fod angen chwaraewyr newydd ar y clwb; felly rwan yw'r amser i gysylltu â'r ysgrifennydd newydd os oes awydd gennych i gicio gwynt mis Medi nesaf.

"Y rhaglen radio orau erioed!", meddai pawb. Cymerodd aelodau Clwb Cymric ran yn y rhaglen boblogaidd "Dewch am Dro" yng nghwmni Alun Williams, a ddarlledwyd ar fore Sadwrn, Ebrill 19. Mae yna ddyfodol disglair ym myd darlledu i ambell un os nad ydynt yn gallu cicio pel!

Swyddogion tymoer 1974-5

| | | |
|---|---|---|
| Capten y tim cyntaf | - | Moi Parri |
| Is-gapten | - | Huw Evans |
| Capten yr ail dim | - | Gerwyn Williams |
| Is-gapten | - | Eynon Williams |
| Ysgrifennydd | - | Ian ap Dewi Canolfan yr Urdd |
| Trysorydd | - | Malcolm McGreevy |

CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU

## ADRAN LENYDDIAETH

Swyddog Llenyddiaeth

(cyflog £1,846 - £2,854)

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithredu polisiau'r Cyngor er noddi llenyddiaeth yn yr iaith Gymraeg, fel dirprwy i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol. Rhan bwysig o'r swydd newydd fydd cyfrifoldeb arbennig o fod yn ysgrifennydd i'r Academi Gymreig. Nid oes eisiau cymwysterau ysgrifenyddol i'r swydd hon: y mae gwybodaeth o lenyddiaeth Gymraeg a brwdfrydedd dros ei hybu yn llawer pwysicach.

Manylion pellach a ffurflen gais am y swydd hon oddiwrth y CYFARWYDDWR, CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU, STRYD YR AMGUEDDFA, CAERDYDD.

Manylion pellach a ffurflen gais am y swydd hon oddiwrth y Cyfarwyddwr, Cyngor Celfyddydau Cymru, Stryd Yr Amgueddfa, Caerdydd.

Park Hotel

PARK HOTEL
PARK PLACE
CAERDYDD
CF1 3UD
☎ 23471

* Un o brif westai canol dinas Caerdydd.
* Cyfleusterau ardderchog ar gyfer cynadleddau, prydiau bwyd a chyfarfodydd busnes ar gyfer 30 neu 400..
* 97 o ystafelloedd gwlau cyfforddus nifer gyda stafell ymolchi preifat.
* Ystafell grill a phrif ystafell fwyd yn cynnig dewis o fwydydd da.
* Cyfleusterau bar.